**GWEITHGARWCH RHYNGWLADOL GWEINIDOGION**

**Mehefin 2025**

| YMWELIADAU Â CHYMRU | |
|---|---|
| **13 Mehefin** | **Ymweliad â Chymru gan y Gweinidog Diwylliant yn Llywodraeth Catalwnia**<br>Cyfarfu'r Gweinidog Chwaraeon a Diwylliant â'r Gweinidog Diwylliant yn Llywodraeth Catalwnia yn Amgueddfa Genedlaethol Sain Ffagan. Roedd y cyfarfod, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru, yn trafod meysydd posibl o gydweithio ar draws y sector. Roedd yr ymweliad yn gam pwysig i ddyfnhau'r berthynas rhwng Cymru a Chatalwnia, cyn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddwy Lywodraeth yn ddiweddarach eleni. |
| **25 Mehefin** | **Cyfarfod ag UNRWA**<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol â chynrychiolydd o Swyddfa UNRWA ar gyfer Ewrop, i glywed diweddariad ar y sefyllfa ddyngarol yn Gaza. |
| **26 Mehefin** | **Ymweliad Talaith Utah â Chymru**<br>Cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio gyfarfod dwyochrog byr ag Is-lywodraethwr Deidre Henderson a rhoddodd groeso i'r ddirprwyaeth o swyddogion y llywodraeth yn ystod eu hymweliad â Chymru. Prif bwrpas yr ymweliad oedd trafod ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y diwydiant niwclear. |
| **YMWELIADAU Â GWLEDYDD ERAILL** | |
| **11 Mehefin** | **Cyfarfod y Prif Weinidog gyda Llysgennad y Swistir yn Llundain**<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog â Llysgennad y Swistir yn ei breswylfa yn Llundain i drafod cyfranogiad Cymreig yn Euro 2025, gan sicrhau bod Cymru yn gallu manteisio ar gysylltiadau cynyddol â'r Swistir a sicrhau ein bod yn cyflawni buddion parhaol.. |
| **11 Mehefin** | **Presenoldeb y Prif Weinidog mewn Derbyniad Busnes Cymru a Japan**<br>Mynychodd y Prif Weinidog dderbyniad busnes a drefnwyd gan Lysgenhadaeth Japan i ddathlu'r cysylltiadau economaidd cryf rhwng Cymru a Japan. Cyfarfu'r Prif Weinidog â gwesteion busnes, cynnal cyfweliadau i'r wasg a chynnal cyfarfod dwyochrog anffurfiol byr gyda'r Llysgennad. |
| **17 Mehefin** | **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn Sioe Awyr Paris**<br>Mynychodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio'r Sioe Awyr i atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dyfu'r sectorau awyrofod ac amddiffyn sydd wedi'u hintegreiddio'n agos. Tra yn Ffrainc, cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet â Llysgennad y DU i Ffrainc a chwmnïau allweddol. |